Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MEDI 2007

DYDDIAD	Nos Fercher, 19eg Medi, 2007
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd RHOSTRYFAN
AELODAU'N BRESENNOL	Tom Ellis (Cad), Emrys Jones, Nerys Evans, Jane Eryl Jones, Gwilym L.Williams, Elwyn Jones, Meurig Williams, Elin Evans, Neal Williams, Gwilym V.Thomas, Jason Hunt
HEFYD YN BRESENOL	Cyng.Glyn Owen, Bethan Williams (clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   HW
2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**
   TE- llythyr o gwyn ynglyn â llwybr Bryngwyn
   GVT – Uwchgwyrfai
   NE/BCW – ysgol Rhostryfan
   GLW – taliad

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion mis Gorffennaf fel rhai cywir.

5. Materion i'w trafod:

   a) Tro Ffrwd Cae Du – nododd GO ei fod wedi cael cyfarfod safle gyda EmJ, perchnogion y tai a swyddog priffyrdd Cyngor Gwynedd a bod adroddiad wedi dod nôl gan D.W.Williams, Prif Beiriannydd yn awgrymu'r canlynol:
   - Gosod arwydd 'Araf' ychwanegol
   - Arwydd chevron ar y gongl
   - Codi bollards i amlygu'r tro

   Nododd GO ei fod wedi ymateb i'r argymhellion gan nodi ei fod yn eu derbyn ond hefyd o'r farn y dylai'r ffordd gael stripiau arafu a gwyneb *non-skid,* o ystyried fod cymaint o ddamweiniau wedi digwydd yn yr un lleoliad.
   Clerc i anfon llythyr i Gyngor Gwynedd yn ategu hyn.

   b) Cynllun Uwchgwyrfai – wedi derbyn gohebiaeth gan y Cynulliad a gan David Roberts, clerc Cyngor Llandwrog. Daeth yn amlwg o lythyr y Cynulliad mai dim ond yn ddiweddar iawn y llwyddwyd i gael caniatâd i'r ffensio. Mae hyn yn gofyn cwestiynau mawr ynglyn â rheolaeth y cynllun yn ei gyfanrwydd. Angen sgwennu at Elin Jones, AC. Gweinidog Dros Gefn Gwlad y Cynulliad, Alun Ffred Jones AC ac at ariannwyr y prosiect, WEFO. Hefyd sgwennu at Cymad yn gofyn eto am gopi o'r cynllun prosiect.

c) Copi o lythyr Mike Schumann ar ran Rheilffordd Ffestiniog at Wyn Williams, Cyngor Gwynedd. Nododd fod datblygwyr safle tu cefn i Tai Bodawen yn Rhostryfan wedi cymryd darn o dir sy'n perthyn i'r rheilffordd. Mater i'r datblygwyr, Cyngor Gwynedd a'r cwmni Rheilffordd i'w ddatrys.

d) Camerau CCTV yn Rhostryfan. Nododd ElJ ei fod wedi gwneud cais i'r heddlu i gael camerau CCTV ond cafodd wybod bod rhestr hir o geisiadau ac y byddai'n cymryd oddeutu 7 mis. Angen llythyr at yr heddlu i ofyn beth ydy'r diweddara, a gofyn os ydy'n bosib cael mwy o bresenoldeb yn y pentrefi.

e) Cafwyd llythyr gan berchennog siop Gwyled Rhostryfan yn gofyn am gymorth tuag at ddiogelu'r siop. Mae'r perchennog wedi gosod ffenest newydd oddeutu mis yn ôl, ac fe'u maluriwyd o fewn pythefnos. Mae'n gofyn felly tybed oes modd i'r Cyngor Cymuned gyfrannu tuag at gael *shutters* fyddai'n atal y fandaleiddio, o ystyried fod y siop yn wasanaeth lleol i bobl y pentref, yn arbennig felly i'r henoed. Clerc i ymholi ymhellach ynglyn â rheolau sy'n ymwneud â rhoi nawdd i gwmniau preifat. Trafodaeth bellach mis nesaf.

f) GO wedi cael cais i ystyried enw ar gyfer y stâd newydd o dai ger Tai Bodawen, Rhostryfan. Cafwyd nifer o awgrymiadau, a phenderfynwyd drwy bledlais ar Cae Meillion. Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd i roi gwybod.

g) Safloedd parcio ger 3 a 4 Bro Wyled. Angen gwneud cais eto i gael gwneud safleoedd parcio pwrpasol, gan fod problemau traffig mawr, yn arbennig yn ystod amseroedd danfon a casglu plant o'r ysgol. Clerc i ysgrifennu at Richard Roberts, Datblygu Eiddo a Kevin Edwards, Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

h) Bwriedir cynnal noson i lawnsio safle We'r Cyngor yn fuan. Manylion i ddilyn.

i) Cafwyd cais i gael cynrychiolydd o'r cyngor ar bwyllgor Canolfan Llanwnda ac ar Lywodraethwyr Ysgol Felinwnda. Cytunodd EE fod ar bwyllgor y neuadd a TE ar y llywodraethwyr.

j) Nododd y clerc fod gwyneb y ffyrdd ger Mynwent Rhosgadfan a Mynwent Cefnfaes wedi'i hadnewyddu ac mae am ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd i ganmol y gwaith. Fodd bynnag, gwnaethpwyd sylw fod baw ceffyl ar y ffordd ger Mynwent Cefnfaes yn creu pryder unwaith eto. Clerc i ysgrifennu at berchnogion yr ysgol farchogaeth i ofyn wrthynt os oes modd clirio o flaen y fynwent o leiaf.

k) Cafwyd llythyr o gwyn gan aelod o'r cyhoedd am gyflwr llwybr Lein Bryngwyn, yn nodi fod rhan o'r llwybr yn cael ei ddefnyddio fel corlan ddefaid a bod y giatiau yn cael eu gadael yn agored. Clerc i gydnabod y llythyr ac i roi gwybod y byddwn yn cadw golwg ar y sefyllfa. Mae'r darn hwn o'r llwybr oddi fewn i ardal Cyngor Cymuned Llandwrog, ac mae'r clerc yn mynd i roi gwybod iddynt am y broblem. Hefyd gofyn wrth Gyngor Llandwrog i drefnu fod yr eithin yn cael ei dorri ar y llwybr.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	25,716.21
Cyfri Siec:	138.72
CYFANSWM	25,854.93
Cynnwys praesept mis Awst @ £7,350	
Cyflog/costau clerc – mis Medi	386.57
Cyllid y Wlad	94.93
Gwilym L.Williams – torri gwrychoedd	300.00
Neuadd Rhostryfan - llogi	50.00

Ceisiadau am nawdd i'w trafod ym mis Hydref:
NSPCC + Ymgyrch Porth Coffa, Prifysgol Bangor

Daeth cais gan Lywodraethwyr Ysgol Rhostryfan am nawdd tuag at adeiladu ffens newydd cadarn o amgylch y cae chwarae. Penderfynwyd rhoi addewid o £1,000 iddynt.

Materion Cynllunio
Cafwyd llythyr yn nodi fod Gorchymyn Diogelu Coed wedi'i baratoi ar safle rhwng Bryn Coch a datblygiad newydd yn Rhos Isaf. Clerc i sgwennu i'r adran gynllunio i ddweud nad ydy'r aelodau'n cytuno a'r gorchymyn.
CO7A/0570/24/LL – Llwyn Derwen, Dinas – newid cynllun – aelodau wedi derbyn sawl cwyn gan y cyhoedd a pobl sy'n byw gerllaw ynglyn â'r datblygiad. Nid yw'n gweddu o gwbl. Cwynion hefyd ynglyn â gwaith sydd eisoes wedi'i wneud cyn cael caniatâd cynllunio.

CO7A/0598/24/LL – Slaters, Dinas – arwyddion – teimlai'r aelodau fod digon o arwyddion yn bodoli ar y safle eisoes, a does dim angen mwy.

Nodwyd fod apêl wedi gyflwyno i'r Cynulliad ynglyn â datblygiad ar dir Gwyndre, Rhos Isaf.
Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO7A/0479/24/CR – Cefn Rhengwrt, Llanwnda – rendro 2 simdde
CO7A/0597/24/LL – Berwyn, Ffrwd Cae Du – estyniadau deulawr
CO7A/0612/24/LL – 2 Uwch Menai – modurdy
CO7A/0614/24/LL – Ty Capel, Saron – estyniad deulawr

Eisoes wedi'u caniatau:
Llwyn Brain, Rhos Isaf – codi un annedd
Adeiladu un ty - Fron Derw, Llanwnda
Adeiladu byngalo a modurdy ger 8 Glanrhyd, Dinas
Adeiladu 20 o dai – llain o dir tu cefn i Tan y Celyn, Swn y Môr a Talardd, Dinas
Ty'n Twll, Rhosgadfan - estyniad

Gohebiaeth:

a) Un Llais Cymru – pwyllgor ardal nesaf – 27.09.07 Neuadd y Penrhyn, Bangor 7p.m. & Cyfarfod Blynyddol 13eg Hydref
b) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau ffyrdd – Maencoch i Ffingar
c) Cyfarwyddiaeth Adnoddau – arolwg dosbarthiadau pleidleisio a mannau pleidleisio. Cwynion wedi dod i law gan drigolion Ffrwd Cae Du yn nodi fod Canolfan Llanwnda braidd yn bell o'i gymharu â'r hen safle yn Neuadd yr Eglwys. Nid oes trafnidaeth gyhoeddus ac ati. Clerc i basio'r wybodaeth ymlaen.
d) Cyfadran yr Amgylchedd – Priffyrdd – nodyn i roi gwybod fod bwriad i ail-wynebu A487 yn Ffingar – 10-17 Medi
e) Cynulliad – Ymgynghoriad – gweledigaeth leol (tudalen 37 yn cyfeirio at Gynghorau Cymuned yn benodol) TE i gael golwg ar y ddogfen.
f) Cyfadran yr Amgylchedd – priffyrdd – rhaglen waith
g) Arsyllfa Wledig Cymru – holiadur arolwg gwasanaeth. Clerc i wneud copi i bob aelod ac i'w hanfon ymlaen.
h) Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru – angen enwau cysylltu – JEJ wedi cytuno i roi ei henw ymlaen.
i) Cynulliad – Cymuned a Rennir – ymgynghoriad
j) Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – fforwm gymunedol i'w gynnal nos Iau, Hydref 18fed am 7p.m. yng Nghlwb Hwylio Aberdaron
k) Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – cynllun gweithredu lleihau risg 2008-09. EmJ i gael golwg ar y cynllun.
l) Heddlu Gogledd Cymru – Adroddiad Blynyddol y Prif Gwnstabl
m) Tai Eryri – Adroddiad Blynyddol – NE i gael golwg drosti.
n) Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf**:

a) MW – dwr ar y ffordd yn sgwâr Penyffridd. Nododd y clerc fod lleoliadau eraill efo dwr ar y wyneb ac angen sylw megis: Penyceunant, rhwng Maen Brith a Trem Werydd ac ar allt Penygwylwyr. Clerc i gysylltu a'r awdurdodau.
b) ELJ – twll yn y ffordd ger Wernlas Ddu
c) GLW – brigau coed yn dod drosodd i'r ffordd rhwng Bryn Bethel a Penygroeslon.
d) TE – polion trydan.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15p.m.

LLANWNDA COMMUNITY COUNCIL NEWS

The chairman welcomed members to the first meeting following the summer break.

Matters arising:
Ffrwd Cae Du – road traffic accidents. Councillor Glyn Owen met with Emrys Jones, local residents and a Gwynedd Council Officer to discuss possible safety measures. A report was submitted by D.W.Williams, Chief Engineer suggesting the following:

- An additional 'Slow' sign be erected
- Chevron signs to be installed on the bend
- Bollards to be erected to highlight the sharp bend

Councillor Glyn Owen replied to say that he agreed with the recommendations, but would also like to see rumble strips together with an anti-skid surface being put down, considering the number of accidents which have occurred at the site. Clerc to write to Gwynedd Council reiterating this request.
Uwchgwyrfai Project – a letter was received from the Planning Department of the Welsh Assembly and correspondence from David Roberts, Clerk to Llandwrog Community Council. It has become apparent that the final planning application for the fence was only made in August of this year and was given the go-ahead earlier this month. This raises serious questions about Cymad's ability to carry out projects such as Uwchgwyrfai. Clerk to write to Elin Jones, Minister for Rural Affairs, Alun Ffred Jones AM and to WEFO, the project's financers. A letter will also be sent to Cymad requesting an update and details of the original proposal.
A copy of a letter sent to Wyn Williams, Gwynedd Council from Mike Schummann on behalf of Ffestiniog Railway Company was received. Ffestiniog Railway note that the developers at the site near Bodawen Terrace, Rhostryfan have encroached onto their land on the Bryngwyn Line. Matter to be resolved between Gwynedd Council and Ffestiniog Railway Company.
CCTV cameras in Rhostryfan. Elwyn Jones made a request to the police to have the mobile CCTV unit installed in Rhostryfan. However he was notified that there's a waiting list of approximately seven months. Clerk to send letter to the police requesting more presence in the village.
A letter was received from the owner of Siop Gwyled, Rhostryfan outlining the recent vandalism problems. She had new windows installed only a month ago, and the window was smashed with a boulder within a fortnight. She asks whether the council would be willing to help with the purchase of shutters in order to safeguard her property. Members felt that the shop is a vital service for the village and should be supported. However, they instructed the clerk to check the rules with regard to giving financial help to private businesses. Matter to be discussed in October.
Councillor Glyn Owen was approached regarding the naming of the new estate near Bodawen, Rhostryfan. Several options were discussed, but the name chosen through a vote was Cae Meillion. Clerk will inform Gwynedd Council.
Parking spaces near 3 & 4 Bro Wyled, Rhostryfan. A further request will be sent to Gwynedd Council to adapt the green area into a parking space.
Clerk to organise a launch evening for the council's webpage – details to follow.
Elin Evans will represent Llanwnda Council on the Llanwnda Community Centre committee whilst Tom Ellis will represent the council on the Felinwnda School governors.

Clerk informed the council that resurfacing work has been carried out on the roads near to Cefnaes and Rhosgadfan Cemeteries. The work is excellent and clerk will write to Gwynedd Council thanking them for the work.
A letter of complaint was received by a member of the public regarding the footpath at Bryngwyn. It was reported that the footpath is used as a sheep-pen. Members will keep an eye on the situation. It was also noted that this part of the footpath is outside Llanwnda's boundary and is within Llandwrog Community Council's boundary.
A request was made by the governors of Ysgol Rhostryfan for financial assistance to buy secure fencing around the boundary of the playing field. A contribution of £1,000 was promised.

Planning Matters
A tree preservation order was made on the development site near Bryn Coch, Rhos Isaf. Clerk to write to the planning department to say they're not in agreement with the order.
Llwyn Derwen, Dinas – change to plans – members have received several complaints regarding this development, namely that it doesn't suite the location and also that work has been carried out on the site without firstly obtaining planning permission.

Slaters, Dinas – new signs – members feel that there is sufficient signage at the location at present.
An appeal has been sent to the Welsh Assembly regarding the development on land near Gwyndre, Rhos Isaf.
No objections to the following:
Cefn Rhengwrt, Llanwnda – rendering of 2 chimneys
Berwyn, Ffrwd Cae Du – extension
2 Uwch Menai – garage
Ty Capel, Saron – extension

Permitted:
Llwyn Brain, Rhos Isaf –re-build single dwelling
Fron Derw, Llanwnda – single dwelling
8 Glanrhyd, Dinas – bungalow and garage
Land behind Tan y Celyn, Swn y Môr and Talardd, Dinas – 20 dwellings
Ty'n Twll, Rhosgadfan - extension

Correspondence:
Un Llais Cymru – next area meeting – 27.09.07 Neuadd y Penrhyn, Bangor 7p.m. & Annual General Meeting 13the October
Resource Directorate, Gwynedd Council – survey into polling station locations etc.
North West Wales NHS Trust requested contact names for their local panel – Jane Eryl Jones agreed to put her name forward.
North Wales Police – Chief Constable's Annual Report.
Tai Eryri – Annual Report